Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion
# Triniaeth Ceulad Oer

## Uned Colposgopi

---

Gelwir y driniaeth a gawsoch heddiw'n Geulad Oer. Mae'r driniaeth hon mewn gwirionedd yn gynnes ac nid yn oer fel yr awgryma'r enw. Rhoddwyd triniaeth i geg y groth drwy osod mewnchwilydd wedi'i gynhesu â thrydan ar geg y groth am 20-30 eiliad. Mae'r cwrs yn dinistrio unrhyw gelloedd abnormal. Mae'n ddull a ddefnyddir oherwydd y rhesymau canlynol:-

- Prawf ceg y groth abnormal
- Gwaedu ar ôl cyfathrach rywiol
- Haint gan firws ar geg y groth (papillomavirus dynol)
- Dafadennau gwenerol

Yn dilyn triniaeth, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael rhedlif dyfrllyd trwm am 2-4 wythnos. Mae hyn yn arferol. Mae'n bosibl y bydd olion gwaed ar y rhedlif am yr ychydig ddyddiau cyntaf. Mae'r driniaeth hon fel arfer yn ddiddigwyddiad, ond yn anghyffredin iawn, mae'n bosibl y bydd:-

- Haint
- Gwaedu trwm yn eilaidd i haint

Os byddwch chi'n cael tymheredd neu os bydd y rhedlif yn wyrdd a/ neu'n annymunol, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu i gael gwrthfiotigau. Mae'n bosibl y byddwch chi'n cael ychydig o boenau, sy'n debyg i boenau misglwyf am y 24 awr gyntaf. Dylai'r poen laddwyr yr ydych chi'n eu cymryd ar gyfer poen misglwyf helpu. Os ydych chi angen rhai cryfach, gallwch gysylltu â'ch Meddyg Teulu.

***Cyngor ôl-driniaeth*** - Er mwyn atal haint rhag datblygu am y 4 wythnos ganlynol rhaid i chi beidio:

- Nofio
- Defnyddio tamponau
- Cael cyfathrach rywiol
- Mynd i'r bath

Argymhellwn na ddylech adael y wlad heb gysylltu â'ch yswiriant gwyliau o fewn 4 wythnos i gael y driniaeth gan efallai na fyddan nhw'n fodlon talu am gymorth meddygol pan fyddwch chi i ffwrdd. Awgrymwn nad ydych yn gwneud ymarfer corff

trwm ar y dechrau ond gallwch ail afael ynddi pan fyddwch chi'n teimlo y gallwch wneud hynny.

Pan fydd ceulad oer wedi'i ddefnyddio i drin celloedd abnormal yn dilyn prawf ceg y groth annormal, bydd yn rhaid i chi gael prawf arall ymhen 6 mis.

A fyddech chi cystal â chysylltu â'r adran Colposgopi os bydd gennych unrhyw gwestiwn neu bryder:-

Ysbyty Brenhinol Gwent:- 01633 - 234743 y tu allan i oriau 01633 - 234052.

Neuadd Nevill:- 01873 - 732394 y tu allan i oriau 01873 - 732410.

Ystrad Mynach:- 01443 - 802371 y tu allan i oriau 01633 - 234052.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**